

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Amodau Gorchwyl yr Awdurdod a'i Bwyllgorau

a'r

Cynllun Dirprwyo



Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: Hydref 2019

Amodau Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo APCBB – Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Ychwanegu'r Gweithgor Cyfathrebu – Cymeradwywyd 1 Gorffennaf 2011

Ychwanegu trefn ddirprwyo dan Ran V i'r Cyfarwyddwr Cynllunio parthed y CDLI – 9 Rhagfyr 2011

Diwygiadau parthed craffu i'r APC a'r PACH – cymeradwywyd 30 Mawrth 2012

Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd gan yr APC ar 28 Medi 2012

Diwygiadau i'r drefn ddirprwyo ar gyfer Gorfodi a gymeradwywyd gan yr APC ar 3 Mai 2013

Diwygiadau i'r Amodau Gorchwyl – Gweithgor CRhPC a CyP – 28 Mehefin 2013

Ychwanegu Gweithgor Craffu – APC 30 Medi 2013

Newidiadau i'r drefn dirprwyo i swyddogion (yr Awdurdod) a diweddariad ar ddarpariaeth gyfreithiol – APC – 13 Rhagfyr 2013

Newidiadau i weithgorau: prosesau uno a dileu – cymeradwywyd gan yr APC 9 Mai 2014; ychwanegu gofyniad at yr APC bod Cadeiryddion yn rhoi cyflwyniad blynyddol i'r APC.

Newidiadau i'r drefn ddirprwyo ar gyfer y Pwyllgor CMAHT a gymeradwywyd gan yr APC 11 Gorffennaf 2014

Newidiadau i'r Pwyllgor Busnes Brys – APC 8 Ebrill 2016

Newidiadau i Ran VI cylch gorchwyl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol – 11 Tachwedd 2016

Newidiadau i lefel ariannol trefniadau dirprwyo i swyddogion (y Panel Cynghori ar Grantiau a Phwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy) – 11 Tachwedd 2016

Diwygiwyd a chymeradwywyd APC 25 Mehefin 2019

Newidiadau i RHAN V - Dirprwyo materion cefn gwlad, rheoli tir a materion eraill sy'n ymwneud ag eiddo - 20 Ebrill 2018

Newidiadau i RHAN VI – Dirprwyo i'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr cynllunio yn gweithredu ar y cyd - 20 Ebrill 2018

Newidiadau i RHAN VII - Dirprwyo i'r weithrediaeth - 20 Ebrill 2018

Newidiadau i RHAN VI o PAROW - Dirprwyo i'r cyfarwyddwr Cynllunio - 20 Ebrill 2018

Newidiadau i weithredu'r strwythur llywodraethu newydd - 30 Gorffennaf 2018

Newidiadau i adlewyrchu swydd Cyfarwyddwr Cynllunio yn cael eu dileu o'r strwythur - 21 Medi 2018

Newidiadau i Ran VI o'r Cynllun Dirprwyo - 12 Chwefror 2019

Newidiadau i adlewyrchu strwythurau rheoli a staffio mewnol – 25 Mehefin 2019

- I. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu y dylai ei swyddogaethau gael eu cyflawni fel a ganlyn:
- a) gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny a restrir yn Atodiad A
 - b) gan y Pwyllgorau a nodir yn Atodiadau B-DD
 - c) gan y Panel Cyngori ar Grantiau yn Atodiad E
 - d) trwy argymhellion gan weithgorau yn Atodiadau F-NG

CYNNWYS

	Atodiad	Tudalen
Amodau Cyffredinol ar gyfer Dirprwyo i Swyddogion		4
Yr Awdurdod	A	5
Y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy	B	12
Y Pwyllgor Safonau	C	23
Y Pwyllgor Archwilio a Chraffu	CH	24
Y Pwyllgor Penodi	D	27
Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy	DD	28
Y Panel Cyngori ar Grantiau	E	29
Y Gweithgor Tai Fforddiadwy	F	33
Y Gweithgor Llywodraethu a Datblygiad Aelodau	FF	34
Panel Dewis y Fforwm Mynediad Lleol	G	36
Y Fforwm Polisi	NG	37

AMODAU CYFFREDINOL AR GYFER DIRPRWYO I SWYDDOGION

Mae'r trefniadau dirprwyo i swyddogion a nodir yn yr Atodiadau canlynol yn amodol ar y canlynol

1. Dylai'r pwerau a gaiff eu dirprwyo i swyddogion gael eu harfer yn unol â'r canlynol:
 - a) Rheolau Sefydlog yr Awdurdod;
 - b) Rheoliadau a Safonau Ariannol yr Awdurdod;
 - c) y Telerau ac Amodau Gwasanaeth priodol ar gyfer y swyddogion a'r cyflogeion dan sylw;
 - d) y polisiau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
2. Byddir yn ystyried bod y termau canlynol yn rhoi pwerau wedi'u dirprwyo:

Gweinyddu, cytuno, dyrannu, penodi, cymeradwyo, awdurdodi, bod yn gyfrifol, cyflawni, ystyried argymhellion, rheoli a datblygu, ymdrin â, penderfynu, pennu, gwaredu, sicrhau, arfer, caniatáu, nodi, dechrau a chyflawni, cyfweld, dyroddi, adolygu'n gyson, gwneud, gwneud penderfyniadau, adolygu, setlo, ymgymryd â, hepgor
3. I osgoi amheuaeth, oni nodir yn wahanol, dylid dehongli bod gan y geiriau "cymeradwyo", "dyroddi", "penodi" a'r holl eiriau eraill a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod ystyr negyddol yn ogystal â chadarnhaol.
4. Lle mae unrhyw fater yn ymwneud ag ystyriaethau proffesiynol neu dechnegol nad ydynt o fewn cwmpas cymhwysed y swyddog perthnasol dylai'r swyddog hwnnw geisio cyngor proffesiynol neu dechnegol priodol cyn awdurdodi camau gweithredu.
5. Lle mae unrhyw drefn ddirprwyo'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog perthnasol ymgynghori â'r Aelod(au) Priodol –
 - a. Bydd ymgynghori'n digwydd fel arfer yn ysgrifenedig (a dylid tybio nad oes gan Aelod Priodol wrthwynebiad i'r penderfyniad neu'r cam gweithredu arfaethedig os yw'n methu ag ymateb o fewn 3 diwrnod); ac
 - b. Mewn achosion brys, gall ymgynghori ddigwydd mewn ffordd nad yw'n ysgrifenedig.
6. Gall y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol neu'r Rheolwr Adain awdurdodi unrhyw swyddog i arfer y pwerau dirprwyedig ar ei ran ar yr amod bod awdurdodiad o'r fath yn ysgrifenedig ac yn manylu ar y pwerau dirprwyedig y mae'r swyddog wedi'i awdurdodi i'w harfer yn fanwl trwy gyfeirio at y rhannau a'r paragraffau yn y Cynllun hwn a bod awdurdodiadau ysgrifenedig o'r fath yn cael eu cadw ar ffeil, a grëwyd yn benodol at y diben hwn.
7. Mae cyfeiriadau yn y cynllun hwn at ddeddfiadau neu unrhyw ddeddfwriaeth arall yn cynnwys y deddfiadau hynny neu'r ddeddfwriaeth honno fel y'u diwygiwyd neu y'u disodlwyd.

YR AWDURDOD

Cyfansoddiad

Bydd yr Awdurdod yn cynnwys pob Aelod.

Amodau Gorchwyl

1. Gwneud ac adolygu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol.
2. Pennu, cymeradwyo ac adolygu strwythur penderfynu (Amodau Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo) yr Awdurdod, gan gynnwys dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ac is-bwyllgorau a chyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau a dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weithredwr a swyddogion.
3. Pennu a chymeradwyo gweithdrefnau a phrotocolau i roi cymorth i gyflawni swyddogaethau Pwyllgorau'n effeithlon.
4. Cymeradwyo polisiâu a chynlluniau strategol a datblygu
5. Penodi'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Diogelu Data yn unol â deddfwriaeth berthnasol
6. Cael cofnodion y Pwyllgorau hynny sydd heb bwerau wedi'u dirprwyo er mwyn eu cymeradwyo.
7. Bod yn gyfrifol am adnoddau ariannol ac asedau'r Awdurdod.
8. Cymeradwyo amcangyfrifon cyfalaf a refeniw blynyddol am y flwyddyn ariannol sydd i ddilyn.
9. Pennu gofyniad o ran y gyllideb am y flwyddyn ariannol sydd i ddilyn a threfnu bod pob awdurdod cyfansoddol yn cael ei hysbysu ynghylch ardollau blynyddol.
10. Cymeradwyo a cael diweddariadau ar Ddangosyddion y Cod Darbodus
11. Cymeradwyo'r lefel o adnoddau a'r modd y cânt eu defnyddio
12. Cymeradwyo'r Datganiadau o Gyfrifon, sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151 i'w llofnodi
13. Mabwysiadu cod o ran yr ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau ac Aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod
14. Ystyried adroddiadau a atgyfeiriwyd at yr Awdurdod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005 a phennu camau gweithredu priodol

15. Cymeradwyo argymhellion gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ynghylch y pynciau ar gyfer astudiaethau craffu bob blwyddyn, a phenodi Aelodau i baneli craffu
16. Cael yr adroddiadau terfynol ar astudiaethau craffu a phennu'r dull gweithredu priodol mewn ymateb i'r argymhellion ynddynt
17. Penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol.
18. Gwneud deddfau lleol.
19. Pennu a chymeradwyo telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys diwygiadau iddynt, ar gyfer yr holl gyflogeion
20. Gwneud unrhyw newidiadau i'r sefydliad parhaol
21. Gwneud penodiadau i raddau staff dros bwynt 49 ar y golofn gyflog
22. Cytuno ar fframwaith ar gyfer pennu ac adolygu tâl ac amodau Prif Swyddogion
23. Dyfarnu gwyliau statudol a gwyliau nad ydynt yn statudol.
24. Ymgymryd ag ymgynghoriadau ar y cyd â chynrychiolwyr cyflogeion trwy'r Cyd-bwyllgor Cyswllt ar fân anomaleddu o ran disgyblaeth, diogelwch eiddo, diogelwch personol a lles, anghydfodau a'r weithdrefn gwynion, goruchwyliaeth, cyfathrebu ac effeithlonrwydd er mwyn cynnal a gwella perthynas waith dda gyda chyflogeion.
25. Awdurdodi penderfyniadau i ymestyn tâl salwch.
26. Ymdrin â cholli swyddi'n wirfoddol
27. Materion eraill y mae'r Awdurdod o bryd i'w gilydd yn penderfynu eu cadw yn ôl er bod y mater wedi'i ddirprwyo i Bwyllgor neu swyddog.
28. Penderfynu materion a bennwyd yn gyfreithiol fel rhai a ddylai gael eu penderfynu gan yr Awdurdod.
29. Dylai'r Awdurdod gael cyflwyniad blynyddol gan Gadeiryddion yr Awdurdod a'i bwyllgorau, a fydd yn cael ei amserlennu yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod llawn cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn.

RHAN I DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR

1. Gweithredu ar ran yr Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas â gweinyddu'r Awdurdod a'i weithrediad o ddydd i dydd ac mewn achosion brys.
2. Penderfynu ar yr angen am staff dros dro
3. Penodi aelodau unigol o staff dros bwynt 49 ar y golofn gyflog.
4. Gweithredu Dyfarniadau Cyflog ac Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol.
5. Pennu a dyfarnu honoraria.

6. Cymeradwyo ceisiadau gan Gronfa Bensiwn Powys i ryddhau buddion pensiwn sy'n ymwneud â chyn-aelodau o staff.
7. Awdurdod i adnewyddu prydlesi, trwyddedau neu gytundebau mewn achosion lle mae'r telerau'n sylweddol debyg a'r symiau sy'n daladwy o fewn y terfyn ariannol a bennwyd gan yr Awdurdod.
8. Cymryd unrhyw gamau gweithredu i roi effaith i unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod
9. Awdurdodi mynediad ar dir (gan gynnwys adeiladau) at ddiben arolygu neu ymchwilio mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Awdurdod a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, neu mewn perthynas â chaffaeliadau gorfodol arfaethedig.
10. Cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i gyflwyno unrhyw hysbysiad neu gais am wybodaeth dan unrhyw Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu feddiannwr neu berson sydd â buddiant mewn neu sy'n rheoli unrhyw dir neu safle roi gwybodaeth i'r Awdurdod.
11. Rhoi cyfarwyddiadau mewn perthynas â rheolaeth dda ar asedau tir ac eiddo'r Awdurdod gan gynnwys hysbysiadau perthnasol.
12. Cyflawni unrhyw Weithred neu gytundeb ar ran yr Awdurdod
13. Cael barn Cwnsler a chyfarwyddo Cwnsler ar ran yr Awdurdod.
14. Llofnodi ar ran yr Awdurdod unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i roi effaith i unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod, neu gan unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor sy'n gweithredu o fewn pwerau a ddirprwywyd gan yr Awdurdod.
15. Cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i gychwyn achos sifil, tynnu achos sifil yn ôl neu amddiffyn achos sifil ac ymyrryd neu ymddangos mewn achosion gerbron unrhyw lys, y Tribiwnlys Tiroedd, tribiwnlys diwydiannol, Crwner, neu unrhyw dribiwnlys neu ymchwiliad statudol arall, neu gymrodeddwr, lle mae'n ymwneud â buddiannau'r Awdurdod, a dod i gytundeb o ran setlo achosion o'r fath lle y bo'n briodol.
16. Derbyn dogfennau a gyflwynir ar gyfer unrhyw achosion.
17. Cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i gychwyn achosion troseddol a thynnu achosion troseddol yn ôl mewn perthynas â throseddau yn erbyn deddfwriaeth (gan gynnwys deddfau lleol) y mae'r Awdurdod wedi'i awdurdodi i'w gorfodi, a chychwyn neu amddiffyn apeliadau sy'n deillio o achosion o'r fath.
18. Cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i amddiffyn unrhyw achosion troseddol a ddygir yn erbyn yr Awdurdod a chychwyn neu amddiffyn apeliadau sy'n deillio o achosion o'r fath.

RHAN II DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR AR ÔL YMGYNGHORI Â CHADEIRYDD A DIRPRWY'R AWDURDOD

1. Yn achos unrhyw argyfwng neu fusnes brys arall na ellir yn rhesymol ei atgyfeirio at yr Awdurdod, mae'r Prif Weithredwr wedi'i awdurdodi i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol

sy'n hanfodol i les yr Awdurdod neu ei gyflogeion. Ym mhob achos o'r fath dylai'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151 pryd bynnag y mae camau gweithredu brys yn dwyn canlyniad ariannol i'r Awdurdod, neu â'r Swyddog Monitro a/neu Gyfreithiwr i'r Awdurdod mewn perthynas ag unrhyw ganlyniadau cyfreithiol.

2. Mewn achosion brys, ac yn dilyn ymgynghori â Chadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, llofnodi unrhyw weithred neu ddogfen ar ran yr Awdurdod.
3. Dylai unrhyw benderfyniadau a wneir dan Baragraffau 1 a 2 uchod gael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y cyfle cynharaf.
4. Cytuno ar bresenoldeb aelodau mewn cynadleddau.
5. Cytuno a fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd rhan mewn cyfleoedd o ran Partneriaeth a Nawdd neu'n cymeradwyo cyfleoedd o'r fath a drafodwyd gan y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Partneriaethau Parciau Cenedlaethol neu drwy Sefydliad Elusennol National Parks UK, ar yr amod yr ymgynghorwyd â'r Aelodau ynghylch y cyfleoedd hynny a bod yr Aelodau wedi cael cyfle i alw'r cynnig i mewn i'w drafod ymhellach. Gall cynnig gael ei alw i mewn dim ond i Aelod wneud cais i hynny ddigwydd, ond rhaid i'r cais hwnnw gael ei wneud cyn pen 10 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymgynghoriad.

RHAN III DIRPRWYO I BRIF SWYDDOGION

1. Ysgwyddo gwariant refeniw o fewn amcangyfrifon y cytunwyd arnynt yn amodol ar y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog
2. Ysgwyddo gwariant cyfalaf sydd wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf y cytunwyd arni yn amodol ar y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog
3. Cyflwyno ceisiadau am grantiau a derbyn grantiau a gynigir ar yr amod a) eu bod o fewn y terfynau awdurdodi ariannol sydd mewn grym ar y pryd; a b) y roddwyd ystyriaeth briodol i unrhyw amodau grant sy'n gymwys o ran risg i'r Awdurdod.
4. Cyflwyno cynigion mewn perthynas â chyfleoedd i gael cyllid ychwanegol i ymdopi â phwysau sydd heb ei ariannu, a derbyn cynigion o ran cyllid a gaiff eu gwneud yn y cyswllt hwn.

RHAN IV DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR

Gwneud penderfyniadau ar unrhyw faterion sy'n deillio mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig trwy gydol y cyfnod y caiff ei Archwilio a nes y caiff ei fabwysiadu. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir neu gam gweithredu a gymerir felly gael ei wneud yn hysbys i Chadeirydd yr Awdurdod cyn gynted ag sy'n ymarferol a'i wneud yn hysbys i gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

RHAN V DIRPRWYO MATERION CEFN GWLAD, RHEOLI TIR A MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD AG EIDDO

PWERAU CYFFREDINOL A DDIRPRWYD I SWYDDOGION

1. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol, y Rheolwr Cyfoeth Naturiol, y Rheolwr Masnachol a'r Rheolwr Wardeniaid wedi'u hawdurdodi fel a nodir isod i ganiatáu mynediad dros dro at, neu ddefnydd dros dro o, dir yr Awdurdod (ac eithrio digwyddiadau hamdden a chwaraeon wedi'u trefnu ar raddfa fawr – gweler 2. isod) at ddibenion sy'n cynnwys ond nad ydynt yn gyfyngedig i arolygon safleoedd, rheoli safleoedd, a gweithgareddau hamdden anffurfiol cyn belled nad oes unrhyw fuddiant rhydd-ddaliadol neu brydles mewn tir yn cael ei greu ac nad yw unrhyw gydnabyddiaeth a roddir yn fwy na £5000. Y diffiniad o dros dro yn y cyd-destun hwn yw dim mwy na 14 diwrnod gyda'r Rheolwr Wardeniaid wedi'i awdurdodi i ganiatáu mynediad/defnydd/gweithgareddau am hyd at 3 diwrnod, y Rheolwr Cyfoeth Naturiol a'r Rheolwr Masnachol am 7 diwrnod a'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol 14 diwrnod.
2. Bydd digwyddiadau hamdden a chwaraeon wedi'u trefnu'n cael eu rheoli a'u cymeradwyo fel a ddiffinnir yn y Polisi Digwyddiadau unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu.
3. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol, y Rheolwr Cyfoeth Naturiol a'r Rheolwr Wardeniaid wedi'u hawdurdodi i wneud unrhyw geisiadau angenrheidiol am gydsyniad (er enghraifft cydsyniad Gweithrediadau a Allai Achosi Difrod ar gyfer gwaith ar SoDdGAoedd)
4. Gall unrhyw Swyddog priodol â chyfrifoldeb uniongyrchol am eiddo neu brosiect:
 - a. osod contractau am waith a gwasanaethau sy'n effeithio ar dir y mae'r Awdurdod yn berchen arno ar yr amod bod awdurdodiadau o'r fath yn gyfyngedig i'r terfynau cymeradwyaeth ariannol ar gyfer cost y gwaith dan sylw.
 - b. cytuno ar delerau mynediad ar gyfer ymgymeryr statudol sy'n dal y pwerau mynediad perthnasol

RHAN VIa DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR AR ÔL YMGYNGHORI Â CHADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD YR AWDURDOD

1. Awdurdod i negodi a chytuno ar drafodiad i gaffael neu waredu buddiannau rhydd-ddaliad ar yr amod bod gwerth y trafodiad yn llai na £125,000 (heb gynnwys TAW a ffioedd) yn unol â therfyn awdurdodi'r Prif Weithredwr ac yn amodol ar y gofyniad i sicrhau gwerth gorau. Dylai'r penderfyniad gael ei wneud yn hysbys i'r Awdurdod yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael.
2. Awdurdod i negodi, amrywio a chytuno ar drafodiad i gaffael, aseinio neu ganiatáu buddiannau prydles, neu derfynu buddiannau o'r fath, ar yr amod:
 - a. Bod gwerth y taliadau rhent islaw'r trothwy ar gyfer talu Treth Tir y Doll Stamp, sef £40,000 y flwyddyn ar hyn o bryd
 - b. Bod hyd y tymor cychwynnol yn llai na 7 mlynedd
 - c. Bod unrhyw denantiaethau busnes a ganiateir wedi'u contractio allan o'r darpariaethau sicrwydd deiliadaeth yn Neddf Landlord a Tenant 1954
 - d. Y gellir dangos y cafwyd y gwerth gorau
 - e. Bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn hysbys i'r Awdurdod yn y cyfarfod nesaf.

RHAN VIb DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR A/NEU GYFARWYDDWR CYFLAWNI'R PARC CENEDLAETHOL

1. Awdurdod i negodi, amrywio a rhoi prydlesi, trwyddedau, hawddfreintiau a fforddfreintiau tymor hir a/neu barhaol ar dir neu dros dir y mae'r Awdurdod yn berchen arno, ar yr amod bod y cynnig wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol, a chan Grŵp Aelodau a alwyd ynghyd gan y Prif Weithredwr gan ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, at ddiben ystyried y cynnig. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys tri Aelod y bydd un ohonynt yn Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac y bydd dau ohonynt yn Aelodau a benodwyd gan Awdurdod Lleol, a fydd yn cynnwys yr Aelod sy'n Hyrwyddwr ar gyfer y maes perthnasol os yw hynny'n briodol. Pe bai'r cynnig yn gynnig datblygu y byddai'r Awdurdod yn Awdurdod Cynllunio ar ei gyfer, dylai'r Grŵp Aelodau gynnwys y tri Aelod nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy.
2. Awdurdod i negodi, amrywio, terfynu a chytuno ar drwyddedau, cydsyniadau neu gytundebau eraill dros dro sy'n para uchafswm o hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd (gan gynnwys cytundebau rheoli cadwraeth a mynediad dan a.39 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 a chytundebau dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol) mewn perthynas â'r canlynol:
 - a. Tir ac eiddo, ar yr amod nad oes unrhyw fuddiant rhydd-ddaliadol neu brydlesol yn cael ei drosglwyddo ac nad yw unrhyw daliadau iawndal na chydabyddiaeth yn fwy na therfyn Awdurdodiad y Prif Weithredwr (£125,000 ar hyn o bryd) neu, os yw'n berthnasol, nad yw unrhyw daliadau trwydded ac ati yn fwy na'r trothwy ar gyfer talu Stamp Treth Tir Dyletswydd - a osodir ar hyn o bryd yn £ 40,000 y flwyddyn.
 - b. Gwasanaethau gweithredol, ar yr amod nad oes unrhyw fuddiant rhydd-ddaliadol neu brydlesol yn cael ei drosglwyddo ac nad yw unrhyw daliadau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau yn fwy na therfyn Awdurdodiad y Prif Weithredwr (£125,000 ar hyn o bryd).
 - c. I drafod, amrywio a rhoi hawddfreintiau a thramffyrdd dros dir sy'n eiddo i'r Awdurdod ar yr amod nad yw unrhyw iawndal cyfandaliad na thaliadau cydnabyddiaeth yn fwy na therfyn Awdurdodiad y Prif Weithredwr (£125,000 ar hyn o bryd).

RHAN VII DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR

1. Cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar dir y mae'r Awdurdod yn berchen arno ar ran yr Awdurdod ar yr amod bod y datblygiad arfaethedig wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol a lle nad yw cost y datblygiad heb gynnwys TAW a ffioedd yn uwch na £125,000.
2. Cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar ran yr Awdurdod ym mhob achos arall ar yr amod bod y datblygiad arfaethedig wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol a chan Grŵp Aelodau a gynullwyd gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod at ddiben ystyried y datblygiad. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys tri Aelod a'r rheiny'n cynnwys un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a dau Aelod a benodwyd gan Awdurdod Lleol, gan gynnwys yr Aelod sy'n Hyrwyddwr ar gyfer y maes perthnasol os yw hynny'n briodol.

RHAN VIII DIRPRWYO I'R CYFARWYDDWYR

1. Awdurdodi a chymeradwyo hawliadau goramser.
2. Awdurdodi presenoldeb gan gyflogeion mewn seminarau, cyrsiau hyfforddi a chynadleddau allanol hyd at a chan gynnwys 5 diwrnod o hyd.

RHAN IXa DIRPRWYO I'R TÎM LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

1. Cymeradwyo cyflwyno ceisiadau am grantiau ar gyfer cynigion ynghylch prosiectau corfforaethol, sy'n werth hyd at £125,000.

RHAN IXb DIRPRWYO I GYFARWYDDWR CYFLAWNI'R PARC CENEDLAETHOL

1. Derbyn grantiau a gynigir ar gyfer prosiectau, os yw'r Awdurdod (neu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol lle caiff y trefniadau dirprwyo dan Ran IXa eu gweithredu) eisoes wedi cymeradwyo cyflwyno'r cais, ar yr amod y rhoddwyd ystyriaeth briodol i unrhyw amodau grant sy'n gymwys o ran risg i'r Awdurdod.
2. Cyflwyno ceisiadau am grantiau a derbyn grantiau a gynigir ar gyfer prosiectau cyflawni, sy'n werth hyd at £75,000, ar yr amod bod y prosiect wedi'i gymeradwyo gan yr Uwch-dîm Cyflawni a'i fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Rheoli a Chynllun Corfforaethol y Parc Cenedlaethol.
3. Cyflwyno ceisiadau am grantiau a derbyn grantiau a gynigir ar gyfer prosiectau cyflawni, sy'n werth hyd at £125,000, ar yr amod bod y prosiect wedi'i gefnogi gan yr Uwch-grŵp Arwain a'i fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Rheoli a Chynllun Corfforaethol y Parc Cenedlaethol.

Y PWYLLGOR CYNLLUNIO, MYNEDIAD A HAWLIAU TRAMWY

Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 21 o Aelodau'r Awdurdod sy'n argyhoeddi'r Prif Weithredwr eu bod wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy mewn materion cynllunio. Mae "hyfforddiant cymeradwy" yn golygu hyfforddiant a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr at ddiben eistedd ar y Pwyllgor.

Amodau gorchwyl

Arfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli datblygu, gorfodi rheolaeth gynllunio a materion cysylltiedig eraill.

Cyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ac arfer y pwerau a roddwyd gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â mynediad at, a hawliau tramwy dros, dir o fewn ardal yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau a osodwyd ar yr Awdurdod a phwerau a roddwyd iddo'n uniongyrchol neu dan y Cytundebau Dirprwyo gydag Awdurdodau Unedol yr ymrwymwyd iddynt dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Pwerau Dirprwyedig

Cynllunio

1. Dwyn materion mewn perthynas â pholisïau'r Cynllun Datblygu i sylw'r Awdurdod Parc Cenedlaethol lle maent yn codi o geisiadau cynllunio penodol.
2. Penderfynu polisïau a gweithdrefnau atodol cyffredinol ar faterion Rheoli Datblygu, yn amodol ar ddarpariaethau'r Cynllun Datblygu.
3. Gwneud cyfarwyddiadau dan Erthygl 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.
4. Arfer holl bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod fel awdurdod cynllunio lleol ac awdurdod cynllunio mwynau, gan gynnwys ond nid dim ond Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Deddf Cynllunio 2008 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.
5. Penderfynu ceisiadau adolygu mwynau yn unol ag Adran 96 ac Atodlenni 13 ac 14 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Mynediad a Hawliau Tramwy

6. Ystyried a phenderfynu telerau cytundebau dirprwyo a chynlluniau gwella hawliau tramwy ar bolisi cyffredinol ar faterion mynediad a hawliau tramwy.
7. (a) Gwneud Gorchmynion dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i wyro, lledu, creu a diddymu llwybrau cyhoeddus ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer dan RAN VI, 5;

- (b) awdurdodi ceisiadau i'r Llys Ynadon dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i wyro a chau hawliau tramwy cyhoeddus;
 - (c) gwneud gorchmynion dan Adran 53 o'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad i wneud addasiadau i'r Map a'r Datganiad Swyddogol;
 - (d) gwneud gorchmynion dan Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer dan RAN VI, 6;
 - (e) lle y bo'n briodol penderfynu peidio â chadarnhau gorchmynion dan y ddeddfwriaeth a enwir uchod.
8. (a) Awdurdodi gweithredoedd i gychwyn achosion cyfreithiol dan y ddeddfwriaeth a nodir yn y Cytundebau Dirprwyo a wnaed dan Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gyda'r Awdurdodau Unedol i ddiogelu hawliau tramwy'n gyffredinol;
- (b) awdurdodi pa bynnag gamau gweithredu eraill y mae'r Pwyllgor yn ystyried eu bod yn fuddiol i ddiogelu hawliau tramwy dan y Ddeddf Priffyrdd ac a awdurdodir gan y ddeddfwriaeth honno neu ddeddfwriaeth arall.
9. Awdurdodi penderfyniad i hepgor taliadau am orchmynion gwyro a chau llwybrau cyhoeddus yn unol â'r polisi sy'n ymwneud ag adfer costau am orchmynion llwybrau cyhoeddus a chroesi rheilffyrdd (dim ond i'r ceisiadau hynny sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy y mae hyn yn gymwys).
10. Cyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ac arfer y pwerau a roddwyd dan Rannau I a II o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
11. Gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig dan Adrannau I a 2 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984
12. Cael adroddiadau gan y Fforwm Mynediad Lleol a chofnodion y Fforwm hwnnw.
13. Ystyried a gwneud penderfyniadau ynghylch argymhellion y Fforwm Mynediad Lleol.

RHAN I DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR A'R RHEOLWR CYNLLUNIO A THREFTADAETH

- I. Penderfynu ar yr holl fathau o geisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig a'r holl hysbysiadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac o dan unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig AC EITHRIO'R canlynol:
- a) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny y mae unrhyw Aelod o'r Awdurdod yn gofyn iddynt gael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy ar yr amod bod y cais hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau dros wneud y cais a bod y cais yn dod i law'r Prif Weithredwr, o fewn 15 diwrnod i'r dyddiad pan fo'r rhestr wythnosol o geisiadau y bwriedir ymdrin â hwy dan bwerau dirprwyedig wedi cael ei hanfon at holl Aelodau'r Awdurdod;

- b) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny y mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ystyried y dylai'r Pwyllgor ymdrin â hwy;
- c) y ceisiadau hynny am ddatblygiad mawr yn ôl y diffiniad yn Erthygl 2(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 1995;
- d) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle mai'r Awdurdod yw'r ymgeisydd neu lle mae ganddo fuddiant cyfreithiol yn y tir y mae'r cais neu'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;
- e) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ymwybodol mai Aelod neu gyn-Aelod o'r Awdurdod (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf), aelod o'r Uwch-grŵp Arwain, un o swyddogion yr Awdurdod sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ymdrin â cheisiadau neu hysbysiadau neu aelod o deulu person o'r fath neu ffrind agos iddo yw'r ymgeisydd neu fod ganddo fuddiant cyfreithiol o fath arall yn y tir y mae'r cais neu'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

Ar yr amod, lle mae cais neu hysbysiad yn cael ei wneud yn hysbys i'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy am ei fod yn cyd-fynd ag un o'r eithriadau uchod, bod yn rhaid cynnwys cofnod ysgrifenedig o'r ffaith ynghyd â'r rhesymau ar ffeil y cais

2. Gwrthod penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio.
3. Penderfynu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n annilys.
4. Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) Cymru 2012.
5. Gwrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio am y rheswm na ddarparwyd gwybodaeth ddigonol.
6. Ystyried bod ceisiadau cynllunio wedi'u tynnu'n ôl a derbyn cyfarwyddiadau ffurfiol i dynnu ceisiadau cynllunio'n ôl neu waredu ceisiadau'n derfynol dan y Rheoliadau.
7. Cymeradwyo/gwrthod manylion sy'n ofynnol yn ôl amod cynllunio.
8. Penderfynu ar geisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl.
9. Penderfynu ar fân ddiwygiadau i gynlluniau a gymeradwywyd.
10. Ymateb i ymgynghoriadau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, gorchymynion cydsyniad datblygu neu hysbysiadau y mae awdurdodau eraill, cyrff statudol ac asiantaethau wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru.
11. Penderfynu ynghylch yr angen am asesiad amgylcheddol mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad o fewn Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 a phenderfynu pa wybodaeth sy'n ofynnol ac y dylid ei chynnwys mewn unrhyw asesiad amgylcheddol dan y Rheoliadau hynny.
12. Awdurdod i ddyroddi'r canlynol a'u tynnu'n ôl:
 - a) Hysbysiadau dan Adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (tir sy'n cael effaith anffafriol ar amwynder ardal);

- b) Hysbysiadau Torri Amod dan Adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - c) Hysbysiadau Diogelu Adeilad dan Adran 3 (3) a 91 (1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
 - d) Hysbysiadau Rhybuddio ynghylch Camau Gorfodi dan Adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.
 - e) Hysbysiadau Stop Dros Dro dan Adran 171E o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd ac a gychwynwyd yng Nghymru trwy Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 14 ac Arbed) 2015.
 - f) Hysbysiadau Stop Dros Dro ar gyfer adeiladau rhestredig dan Adran 29 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
13. Cyfarwyddo ymgynghorwr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i ystyried unrhyw fater sy'n gyfystyr â throsedd dan ddeddfwriaeth gynllunio neu sy'n galw am gamau cyfreithiol, gan gynnwys ond nid dim ond:
- a) peidio â dychwelyd hysbysiadau adran 330 (cais am wybodaeth);
 - b) peidio â dychwelyd hysbysiadau 171 (tramgwyddo ar reolau cynllunio);
 - c) methu â chydymffurfio â hysbysiadau gorfodi; a
 - d) arddangos hysbysebion yn anghyfreithlon.
14. Penderfynu nad yw'n fuddiol cymryd camau gorfodi a phenderfynu y dylid ystyried bod achosion gorfodi wedi'u datrys AC EITHRIO'R canlynol:
- a) Pan fo'r achos yn ymwneud â safle lle mae gan un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod fuddiant yn y tir. Bydd hyn hefyd yn gymwys lle mae un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod wedi gadael yr Awdurdod lai na deuddeng mis cyn i'r ymchwiliad ddechrau;
15. Dyroddi hysbysiadau gorfodi dan adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig dan adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 neu dynnu'r hysbysiadau hynny'n ôl AC EITHRIO'R canlynol:
- a) Pan fo'r achos yn ymwneud â safle lle mae gan un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod fuddiant yn y tir. Bydd hyn hefyd yn gymwys lle mae un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod wedi gadael yr Awdurdod lai na deuddeng mis cyn i'r ymchwiliad ddechrau;
 - b) Pan fo'r achos yn ymwneud â thir y mae gan yr Awdurdod fuddiant ynddo neu fuddiant ariannol ynddo fel tirlfeddiannwr;

- c) Achosion sydd, ym marn y Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn codi materion sy'n arwyddocaol o safbwynt budd y cyhoedd a/neu Aelodau;
- d) Achosion y mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ystyried eu bod yn gynhennus neu'n ddadleuol;
- e) Achosion sy'n debygol o ddwyn goblygiadau ariannol i'r Awdurdod sy'n uwch na £50,000
- f) Achosion sy'n dwyn goblygiadau ariannol i'r Awdurdod sy'n llai na £50,000 na ellir ei ariannu o'r gyllideb weithredol.
- g) Pan fo'r achos yn un lle argymhellir cymryd camau gweithredu uniongyrchol;
- h) Pan fo'r achos yn un sy'n golygu cael gwared â thŷ annedd;
- i) Pan fo'r achos yn un y mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ystyried y dylid ei atgyfeirio at y Pwyllgor.

16. Penderfynu ynghylch

- a) hysbysiadau dymchwel; a
- b) hysbysiadau dan Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

17. Ymateb i hysbysiadau dan Reoliadau Perthi 1997 a phenderfynu ynghylch ceisiadau ac arfer pwerau statudol mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pherthi.

18. Llofnodi pob penderfyniad a hysbysiad arall yn unol â phenderfyniad gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu dan drefniadau dirprwyo ar ei ran.

19. Awdurdodi gweithredoedd i wneud cytundebau a derbyn rhwymedigaethau unochrog dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

20. (a) Awdurdodi gweithredoedd i wneud, amrywio a diddymu Gorchymynion Gwarchod Coed a Gorchymynion Diogelu Coed dros dro dan Adrannau 198 a 201 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(b) Penderfynu ynghylch ceisiadau i gyflawni gwaith ar goed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed neu sydd wedi'u lleoli mewn Ardal Gadwraeth

21. Cadarnhau Gorchymynion Diogelu Coed a Gorchymynion Diogelu Coed dros dro lle na cheir gwrthwynebiad dilys o fewn y cyfnod gwrthwynebu statudol.

22. Cyflwyno hysbysiadau dan Adran 207 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ei gwneud yn ofynnol ailblannu coed.

23. Gweithredu dan Adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

24. Penderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd hysbysebu.

25. Penderfynu ynghylch ceisiadau dan Adran 192 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (tystysgrifau o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig).
26. Dosbarthu ceisiadau fel datblygiad i'w hysbysu a'u hatgyfeirio at Lywodraeth Cymru.
27. Ymateb ar ran yr Awdurdod i ymgynoriadau dan Ddeddf Cynllunio 2008.
28. Adolygu a diweddarau unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol neu Ganllawiau Gweithdrefnol cyhoeddedig a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi neu newidiadau i'r Dull Gweithredu.

RHAN II DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR, Y RHEOLWR CYNLLUNIO A THREFTADAETH A PHRIF SWYDDOGION CYNLLUNIO:

- I. Penderfynu ynghylch ceisiadau gan ddeiliaid tai am ganiatâd cynllunio i wneud gwaith neu godi estyniadau i annedd neu o fewn terfynau/gardd annedd a gyflwynwyd dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, AC EITHRIO'R canlynol:
 - a) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny y mae unrhyw Aelod o'r Awdurdod yn gofyn iddynt gael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy ar yr amod bod y cais hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau dros wneud y cais a bod y cais yn dod i law'r Cyfarwyddwr Cynllunio neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, o fewn 15 diwrnod i'r dyddiad pan fo'r rhestr wythnosol o geisiadau y bwriedir ymdrin â hwy dan bwerau dirprwyedig wedi cael ei hanfon at holl Aelodau'r Awdurdod;
 - b) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny y mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ystyried y dylai'r Pwyllgor ymdrin â hwy;
 - c) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle nad yw'r datblygiad arfaethedig, ym marn y Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn cydymffurfio â pholisi cynllunio a lle cynigir cymeradwyo'r cais neu'r hysbysiad;
 - d) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle mae'r datblygiad arfaethedig, ym marn y Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn cydymffurfio â pholisi cynllunio a lle cynigir gwrthod y cais neu'r hysbysiad;
 - e) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle ceir gwrthwynebiad ysgrifenedig gan ymgynghorai statudol sydd, ym marn y Cyfarwyddwr Cynllunio neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, yn un o bwys sylweddol ac y cynigir cymeradwyo'r cais neu'r hysbysiad;
 - f) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle mai'r Awdurdod yw'r ymgeisydd neu lle mae ganddo fuddiant cyfreithiol yn y tir y mae'r cais neu'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;
 - g) y ceisiadau neu'r hysbysiadau hynny lle mae'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ymwybodol mai Aelod neu gyn-Aelod o'r Awdurdod (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf), aelod o'r Uwch-grŵp Arwain, un o swyddogion yr Awdurdod sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ymdrin â cheisiadau neu hysbysiadau neu

aelod o deulu person o'r fath neu ffrind agos iddo yw'r ymgeisydd neu fod ganddo fuddiant cyfreithiol o fath arall yn y tir y mae'r cais neu'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

Ar yr amod, lle mae cais neu hysbysiad yn cael ei wneud yn hysbys i'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy am ei fod yn cyd-fynd ag un o'r eithriadau uchod, bod yn rhaid cynnwys cofnod ysgrifenedig o'r ffaith ynghyd â'r rhesymau ar ffeil y cais

2. Gwrthod penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio.
3. Penderfynu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n annilys.
4. Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) Cymru 2012.
5. Gwrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio am y rheswm na ddarparwyd gwybodaeth ddigonol.
6. Ystyried bod ceisiadau cynllunio wedi'u tynnu'n ôl a derbyn cyfarwyddiadau ffurfiol i dynnu ceisiadau cynllunio'n ôl neu waredu ceisiadau'n derfynol dan y Rheoliadau.
7. Cymeradwyo/gwrthod manylion sy'n ofynnol yn ôl amod cynllunio.
8. Penderfynu ar geisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl.
9. Penderfynu ar fân ddiwygiadau i gynlluniau a gymeradwywyd.
10. Awdurdod i ddyroddi'r canlynol a'u tynnu'n ôl:
 - a) Hysbysiadau cais am wybodaeth dan Adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - b) Hysbysiadau Tramgwyddo ar Reolau Cynllunio dan Adran 171C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ;
 - c) Cais am wybodaeth dan Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;
11. Penderfynu nad yw'n fuddiol cymryd camau gorfodi ar faterion sy'n ymwneud â mân ddatblygiadau gan ddeiliaid tai a datblygiadau o fewn libart tai annedd a phenderfynu y dylid ystyried bod achosion gorfodi wedi'u datrys AC EITHRIO dan yr amgylchiadau canlynol:
 - a) Pan fo'r achos yn ymwneud â safle lle mae gan un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod fuddiant yn y tir. Bydd hyn hefyd yn gymwys lle mae un o Aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod wedi gadael yr Awdurdod lai na deuddeg mis cyn i'r ymchwiliad gorfodi ddechrau.

RHAN III DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR, Y RHEOLWR CYNLLUNIO A THREFTADAETH, Y PRIF SWYDDOGION CYNLLUNIO, UWCH SWYDDOGION CYNLLUNIO, SWYDDOGION CYNLLUNIO A THECHNEGWR CYNLLUNIO

1. Penderfynu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n annilys;
2. Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) Cymru 2012;
3. Ystyried bod ceisiadau cynllunio wedi'u tynnu'n ôl a derbyn cyfarwyddiadau ffurfiol i dynnu ceisiadau cynllunio'n ôl neu waredu ceisiadau'n derfynol dan y Rheoliadau;
4. Cymeradwyo/gwrthod manylion sy'n ofynnol yn ôl amod cynllunio.

RHAN IV DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR A/NEU'R RHEOLWR CYNLLUNIO A THREFTADAETH AC YMGYNGHORYDD CYFREITHIOL ENWEBEDIG YR AWDURDOD A HWYTHAU'N GWEITHREDU AR Y CYD

1. Penderfynu ynghylch ceisiadau dan Adran 191 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (tystysgrifau o ddefnydd presennol neu ddatblygiad cyfreithlon).

RHAN V DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR A/NEU'R RHEOLWR CYNLLUNIO A THREFTADAETH, A/NEU YMGYNGHORYDD CYFREITHIOL ENWEBEDIG YR AWDURDOD AR ÔL YMGYNGHORI Â CHADEIRYDD NEU DDIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO, MYNEDIAD A HAWLIAU TRAMWY

1. Awdurdod i ddyroddi'r canlynol neu eu tynnu'n ôl ar yr amod y ceisiwyd cyngor cyfreithiol dan amodau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a oedd mewn grym ar y pryd:
 - a) hysbysiadau gorfodi dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - b) hysbysiadau peidio dan Adran 183 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - c) Hysbysiadau gorfodi ar gyfer adeilad rhestredig dan Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

A fyddai fel arall wedi cael eu hatgyfeirio at bwyllgor lle, ym marn y Prif Weithredwr neu ymgynghorydd cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod, mae'n ofynnol gweithredu ar frys.

2. Awdurdod i ail-awdurdodi gweithredoedd i gyflwyno hysbysiadau gorfodi wedi i'r cyfnod o 28 diwrnod a awdurdodwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy ddod i ben.

RHAN VI DIRPRWYO I'R PRIF WEITHREDWR A/NEU GYFARWYDDWR CYFLAWNI'R PARC CENEDLAETHOL

1. Gwneud gorchmynion dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 lle mae'r gorchmynion hynny wedi cael eu cymeradwyo fel rhai y darperir ar eu cyfer gan y cynllun dirprwyo hwn.
2. Rhoi'r gorau i orchmynion a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 lle mae amgylchiadau wedi newid gan olygu na ellir yn realistig gwblhau'r gorchymyn hwnnw fel y'i gwnaed neu am fod tystiolaeth newydd wedi dod i'r fei.
3. Diddymu penderfyniadau a wnaed yn flaenorol gan yr Awdurdod i gymeradwyo ceisiadau am orchmynion llwybrau cyhoeddus a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980 neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, os yw un o'r canlynol wedi digwydd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud:
 - I. mae cais wedi'i dynnu'n ôl;
 - II. nid yw cais wedi'i symud yn ei flaen ar gais yr ymgeisydd;
 - III. mae cais wedi mynd yn ddiangen;
 - IV. collwyd cysylltiad â'r ymgeisydd, ac mae ymdrechion rhesymol gan yr Awdurdod i ailsefydlu cysylltiad wedi bod yn aflwyddiannus;
 - V. mae amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau nes bod yr Awdurdod o'r farn nad oes angen gwneud gorchymyn mwyach;
 - VI. mae amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau nes na all yr Awdurdod wneud gorchymyn;
 - VII. mae amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau nes na all yr Awdurdod weithredu'r penderfyniad.
4. Cadarnhau gorchmynion llwybrau cyhoeddus a gorchmynion addasu'r Map Swyddogol a gorchmynion a wnaed gan yr Awdurdod dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 pan nad oes gwrthwynebiad i'r gorchmynion hynny.
5. Cymryd camau gweithredu dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i ymdrin â niwsans, peryglon a rhwystrau i hawliau tramwy cyhoeddus.
6. Gwneud gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a gwella i hawliau tramwy a thir mynediad cyhoeddus fel sy'n ofynnol.
7. Ymateb i hysbysiadau dan Adran 56 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a chyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i amddiffyn yr Awdurdod yn y llys pan fo angen.
8. Ymateb i hysbysiadau dan Adran 130A o Ddeddf Priffyrdd 1980 a chyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol enwebedig yr Awdurdod i amddiffyn yr Awdurdod yn y llys pan fo angen.

9. Cymeradwyo ceisiadau am orchmynion llwybrau cyhoeddus dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i wro, lledu, creu a chau llwybrau cyhoeddus mewn achosion lle cafwyd dau neu lai o wrthwynebiadau i ymgynghoriadau gan ymgynghoreion statudol cyn cyflwyno'r gorchmynion, a lle nad yw'r cyngor cymuned na'r Fforwm Mynediad Lleol yn gwrthwynebu'r cais, a lle byddai swyddogion fel arall wedi argymhell wrth yr Awdurdod ei fod yn cymeradwyo'r cais.
10. Cymeradwyo ceisiadau am orchmynion llwybrau cyhoeddus dan Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i wro a chau llwybrau cyhoeddus mewn achosion lle cafwyd dau neu lai o wrthwynebiadau i ymgynghoriadau gan ymgynghoreion statudol cyn cyflwyno'r gorchmynion, a lle nad yw'r cyngor cymuned na'r Fforwm Mynediad Lleol yn gwrthwynebu'r cais, a lle byddai swyddogion fel arall wedi argymhell wrth yr Awdurdod ei fod yn cymeradwyo'r cais.
11. Awdurdodi hepgor taliadau yn unol â'r polisi ar adennill costau yng nghyswllt gorchmynion llwybrau cyhoeddus a chroesfannau rheilffyrdd.
12. Cymeradwyo ceisiadau am orchmynion addasu mapiau diffiniol dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn ychwanegu, dileu, uwchraddio, israddio neu amrywio'r manylion o ran hawliau tramwy mewn achosion lle na chafwyd gwrthwynebiadau i ymgynghoriadau gan ymgynghoreion statudol na'r Fforwm Mynediad Lleol cyn cyflwyno'r gorchmynion a:
 - I. lle nad oes modd dod o hyd i'r tirlfeddiannwr yn dilyn ymholiadau rhesymol a lle cydymffurfiwyd â pharagraffau 2(2) a 2(3) Atodlen 14 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, neu
 - II. nid yw'r tirlfeddiannwr wedi gwneud unrhyw sylwadau yn dilyn ymdrechion rhesymol gan yr Awdurdod i gysylltu ag ef/hi, a
 - III. lle byddai swyddogion fel arall wedi argymhell wrth yr Awdurdod ei fod yn cymeradwyo'r cais.
13. Penderfynu ynghylch ceisiadau dan Adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i godi gatiau neu gamfeydd neu wneud gwaith arall ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau at ddiben atal anifeiliaid rhag mynd i mewn ac allan.
14. Cynnal arwyddbyst ar lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig yn unol ag Adran 27 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968.
15. Gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig dros dro dan Adrannau 14 ac 15 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
16. Awdurdodi defnydd o lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig ar gyfer treialon cerbydau modur dan Adran 33 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.
17. Penderfynu ynghylch ceisiadau a gwneud cyfarwyddiadau i wahardd neu gyfyngu ar fynediad at dir dan Adrannau 24 a 25 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer cyfnodau nad ydynt yn digwydd drosodd a throsodd lle mae cyfanswm y cyfnod neu'r gwaharddiad a geisir ac unrhyw gyfnodau eraill yn y flwyddyn pan waharddwyd neu pan gyfyngwyd ar fynediad at y tir yn unol â cheisiadau dan Adrannau 24 a 25 yn llai na 6 mis.

18. Gwneud cyfarwyddiadau dan Adran 26 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 am gyfnodau hyd at chwe mis mewn unrhyw flwyddyn unigol.
19. Gwrthod ceisiadau i wahardd neu gyfyngu ar hawl i gael mynediad at dir dan Adrannau 24 a 25 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
20. Gwneud y cyfarwyddyd drafft cychwynnol i ganiatáu ceisiadau i wahardd neu gyfyngu ar yr hawl i gael mynediad at dir dan Adrannau 24 a 25 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
21. I neilltuo hawliau tramwy cyhoeddus parhaol, caniataol a thros dro neu gymeradwyo ceisiadau ar gyfer gorchmynion llwybrau cyhoeddus i ddargyfeirio, ehangu, creu a dileu llwybrau cyhoeddus lle maent yn effeithio ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod.
22. Gwneud datganiadau nad ydynt yn bwriadu eu cyflwyno o dan Adran 31 (6) o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â thir sy'n eiddo i'r Awdurdod ac i adneuo datganiadau statudol wedi hynny yn ôl yr angen.

Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys cyfanswm o chwe aelod y dylai tri ohonynt fod yn Aelodau o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac y dylai tri fod yn aelodau annibynnol. Wrth benodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rhoi sylw i ddymunoldeb cynnal cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ei gyfansoddiad ar y cyfan.

Amodau Gorchwyl

1. Arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Pwyllgor gan neu dan statud.
2. Cyngori'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch trefniadau gweithdrefnol ar gyfer ymdrin â chwynion i Gomisiynydd Gweinyddu Lleol yng Nghymru.
3. Adolygu cynrychiolaeth yr Awdurdod ar gyrff allanol.
4. Hybu a chynghori sut i sicrhau safonau ymddygiad uchel ym musnes yr Awdurdod.
5. Cyngori ynghylch gweithredu a monitro polisi a gweithdrefn yr Awdurdod dan ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) ("Chwythu'r chwiban").
6. Rhoi goddefeb i aelodau sy'n gwneud cais i siarad ar fater lle gallai fod ganddynt fudd personol a rhagfarnol
7. Cael adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar arfer ei swyddogaethau.

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU

Cyfansoddiad

1. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys naw Aelod o'r Awdurdod. Y cydbwysedd fydd chwe Aelod o Awdurdodau Unedol a thri aelod wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru
2. Ni fydd Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy yn gymwys i wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.

Amllder a threfn Agendâu

Bydd y Pwyllgor yn cwrdd pedwar gwaith y flwyddyn neu mor aml ag sy'n ofynnol, ac yn ymdrin ag agenda fel a ganlyn:

1. Materion Archwilio
2. Materion Craffu
3. Perfformiad a Risg
4. Eitemau Gwybodaeth (i'w trafod trwy gyflwyno cais ymlaen llaw i'r Cadeirydd)

Amodau Gorchwyl

1. O ran Archwilio, mae'r Pwyllgor yn bodoli i gynorthwyo'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog y Parc Cenedlaethol) yn eu cyfrifoldebau am faterion rheoli risgiau a llywodraethu trwy adolygu natur gynhwysfawr trefniadau sicrwydd rheoli mewnol ac allanol ac adolygu dibynadwyedd a chyfanrwydd y trefniadau sicrwydd hyn i sicrhau eu bod yn "addas ar gyfer y diben" ac y byddant yn cyflawni'r blaenoriaethau busnes. Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol flynyddol ac yn adolygu a monitro'r holl argymhellion ynghylch archwilio allanol a mewnol.
2. O ran Craffu bydd y Pwyllgor yn monitro effeithiolrwydd proses graffu'r Awdurdod, yn adolygu adroddiadau craffu drafft ac yn ystyried ei argymhellion i'r Awdurdod. Bydd y pwyllgor yn monitro sut y mae'r Awdurdod yn dysgu o Adolygiadau Craffu a sut y mae'r adolygiadau'n cyfrannu at berfformiad gwell.
3. O ran Perfformiad a Risg, bydd y Pwyllgor yn archwilio gwaith yr Awdurdod, ei strwythurau, gweithdrefnau a systemau. Bydd yn gwirio'r cynnydd tuag ag gyrraedd targedau a chyflawni amcanion y cytunwyd arnynt mewn ffordd effeithlon ac effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian ac yn sicrhau safonau iechyd a diogelwch uchel gan wneud y dinesydd yn ganolog drwy'r amser. Bydd yn adolygu'r Fframwaith Sicrwydd Integredig er mwyn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynghylch perfformiad a rheoli risg.
4. Mae gan y Pwyllgor y pŵer i ofyn i Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod neu Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd unrhyw un o'i bwyllgorau neu weithgorau fod yn bresennol i ateb cwestiynau neu ddarparu gwybodaeth am eu rolau a'u hatebolrwydd.

Archwilio

1. Cael adroddiadau, monitro, nodi cynnydd, cymeradwyo a gwneud argymhellion ynghylch:
 - a) Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (argymell wrth yr Awdurdod ei fod yn cael ei gymeradwyo)
 - b) Y Cod Llywodraethu
 - c) Trefniadau rheoli iechyd a diogelwch
 - d) Datganiadau Gweinidogol
 - e) Y Fframwaith Sicrwydd Integredig
 - f) Systemau ariannol gan gynnwys Monitro'r Gyllideb ac argymell wrth yr Awdurdod bod cyllidebau drafft yn cael eu derbyn
 - g) Adolygu'r Datganiad o Gyfrifon a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod mewn perthynas â chymeradwyo'r Cyfrifon hynny
2. Cymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol flynyddol, cael adroddiadau archwilio mewnol ac adolygu digonolrwydd ymatebion rheolwyr i'r adroddiadau hynny
3. Cael ac ystyried yr adroddiadau canlynol gan archwilwyr allanol yr Awdurdod ac ymatebion rheolwyr iddynt:
 - a) Y Cynllun Archwilio Allanol
 - b) Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu
 - c) Adroddiad Gwella Blynyddol
4. Cael ac ystyried y canlynol gan reolwyr:
 - a) Sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol
 - b) Cynigion tendro a chanlyniadau ar gyfer prynu gwasanaethau
 - c) Cynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol
 - d) Adroddiadau ar Benderfyniadau sydd heb eu gwneud a Chamau Gweithredu sydd heb eu cymryd
5. Cwrdd yn flynyddol ac yn breifat gydag archwilwyr allanol yr Awdurdod a'r Pennaeth Archwilio Mewnol gyda'i gilydd ac yn unigol.

Craffu

1. Adolygu a gwerthuso'r broses Craffu a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch ei heffeithiolrwydd
2. Gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch y pynciau ar gyfer Adolygiadau Craffu bob blwyddyn
3. Monitro'r cynnydd a wneir gydag Adolygiadau Craffu trwy adroddiadau interim gan Baneli Craffu, gan sicrhau y cydymffurfir â'r holl derfynau amser y cytunwyd arnynt
4. Adolygu'r holl adroddiadau drafft ar Adolygiadau Craffu a gwneud argymhellion i'r Awdurdod arnynt
5. Monitro'r broses o weithredu argymhellion o Adolygiadau Craffu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod a lle y bo'n briodol, sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a chamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd

Perfformiad a Risg

1. Monitro perfformiad mewn perthynas â'r amcanion corfforaethol cymeradwy trwy:
 - a) Y Fframwaith Sicrwydd Integredig
 - b) Adroddiadau manwl ar unrhyw feysydd sy'n achos pryder
2. I dderbyn adroddiad bob chwarter ar brosiectau sy'n cefnogi un o'r pedwar maes gwaith allweddol a rhoi cyfle i'r aelodau adolygu cynnydd;
3. Adolygu'r modd y rheolir iechyd a diogelwch yn strategol yn yr Awdurdod
4. Craffu ar berfformiad yr Awdurdod a'i Bwyllgorau, ei fonitro a'i adolygu a defnyddio data cymharol i adrodd wrth yr Awdurdod a chyflwyno argymhellion iddo er mwyn llywio perfformiad yn y dyfodol.
5. Sicrhau bod yr adborth priodol gan y cyhoedd a chwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio at ddiben craffu ar berfformiad yr Awdurdod o ran darparu gwasanaethau gan gynnwys:
 - a) adroddiad blynyddol ar adroddiadau Adran 21 gan yr Ombwdsmon
 - b) adroddiad chwarterol ar gwynion a chanmoliaeth gan gynnwys adolygiad o dueddiadau
 - c) adolygiad o ymchwiliadau i gwynion Cam 2
 - d) monitro effeithiolrwydd gweithdrefn gwynion yr Awdurdod

Siarad cyhoeddus

Bydd croeso i aelodau o'r cyhoedd ofyn am gael siarad gyda'r Pwyllgor ynghyd ag unrhyw Aelod o'r Awdurdod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor hwn, yn unol â darpariaethau Cynllun Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod

Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd

Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod adolygiad/hunanwerthusiad blynyddol o'r Pwyllgor yn cael ei gwblhau gan gynnwys ymgynghori â'r holl Aelodau, er mwyn dysgu o brofiad, penderfynu ynghylch anghenion o ran hyfforddiant yn y dyfodol a sicrhau gwelliant parhaus.

Y PWYLLGOR PENODI

Cyfansoddiad

Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy a Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Hyd y gellir, dylai'r cyfansoddiad ateb gofynion Paragraff 13.3 o Atodlen 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 o ran y cydbwysedd rhwng aelodau o awdurdodau lleol ac Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Amodau Gorchwyl/Pwerau Dirprwyedig

1. Gwneud argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch penodi Prif Swyddogion trwy'r canlynol:

- 1) Llunio manyleb person a swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd;
- 2) Gwneud trefniadau i hysbysebu'r swydd mewn ffordd sy'n debygol o'i dwyn i sylw pobl sy'n gymwys i wneud cais amdani;
- 3) Gwneud trefniadau i gopi o becyn y swydd gael ei anfon at unrhyw berson ar gais;
- 4) Llunio rhestr o ymgeiswyr addas a'u cyfweld;
- 5) Cyflwyno argymhellion i'r Awdurdod ynghylch dewis terfynol, er mwyn i'r Awdurdod gyfweld a gwneud y penodiad;
- 6) Lle nad oes person cymwys wedi ymgeisio, dylai'r Awdurdod wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu.

2. Gwneud argymhellion i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar benodi aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau trwy'r canlynol:

- a) Cadarnhau manyleb y person a disgrifiad swydd ar gyfer y rôl
- b) Gwneud trefniadau i'r hysbyseb gael ei hysbysebu mewn ffordd sy'n debygol o ddod ag ef at bobl sydd â chymhwyster i wneud cais amdano;
- c) Gwneud trefniadau i anfon copi o'r pecyn swydd at unrhyw berson ar gais;
- ch) Lluniwch restr o ymgeiswyr addas a'u cyfweld.
- d) Gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar y person (au) sydd i'w penodi;
- dd) Lle nad yw unrhyw berson cymwys wedi gwneud cais, i wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu.

PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyfansoddiad

Hyd at 6 Aelod o'r Awdurdod gan gynnwys Cadeirydd y Panel Cyngori ar Grantiau

Amodau Gorchwyl

1. Hybu datblygu cynaliadwy, monitro ac adrodd ar gynnydd a materion sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Pwerau Dirprwyedig

1. Dyfarnu grantiau o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn seiliedig ar argymhellion gan y Panel Cyngori ar Grantiau hyd at uchafswm o £30,000 y cais.
2. Penderfynu ar geisiadau am grantiau o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy lle mae aelodau o'r Panel Cyngori ar Grantiau yn methu â dod i gytundeb.
3. Monitro ac adolygu cynnydd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
4. Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i gael ei gymeradwyo ar y modd y mae'r gronfa'n cael ei dyrannu ac, wedi iddo gael ei gymeradwyo, anfon hwn at Lywodraeth Cymru

RHAN I DIRPRWYO I SWYDDOG Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

1. Dyfarnu grantiau o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd at uchafswm o £2,000.

Y PANEL CYNGHORI AR GRANTIAU

Cyfansoddiad

Hyd at 15 aelod gan gynnwys un Aelod o'r Awdurdod a ddylai fod yn Gadeirydd hefyd.

Diben

Hybu datblygu cynaliadwy a nodau'r Awdurdod trwy roi cyngor ac arbenigedd i Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, gan argymhell dyfarnu grantiau o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sy'n rhan o ddyraniad yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Amodau Gorchwyl

1.0 Y Grŵp

1. Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei sefydlu er mwyn:

'cefnogi prosiectau mewn partneriaeth sy'n datblygu ac yn profi ffyrdd o sicrhau ffordd o fyw fwy cynaliadwy mewn cefn gwlad o gryn harddwch ac amrywiaeth, lle mae nodweddion lleol diwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn cael eu gwarchod a'u gwella.'

2. Bydd aelodau'r panel yn rhoi cyngor ac arweiniad lleol o ran sut y mae'r Awdurdod yn rheoli'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i gefnogi prosiectau cynaliadwy, gan gynnwys cymunedau ar draws y Parc Cenedlaethol.
3. Bydd y Panel yn cydweithio'n agos gyda Phwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy Awdurdod y Parc i fonitro ac adolygu cynnydd y Gronfa.
4. Bydd y Panel yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
5. Bydd aelodau'r Panel Cyngori ar Grantiau'n cynnwys hyd at 15 aelod, a'r rheiny'n cynrychioli meysydd arbenigedd fel a ganlyn:
 - 2 gynrychiolydd ag arbenigedd amgylcheddol
 - 1 cynrychiolydd ag arbenigedd mewn treftadaeth ddiwylliannol
 - 1 cynrychiolydd â phrofiad o faterion amaethyddol
 - 2 gynrychiolydd o'r sector busnes
 - 2 gynrychiolydd ag arbenigedd ym maes hamdden a mynediad
 - 1 cynrychiolydd ag arbenigedd mewn twristiaeth gynaliadwy
 - 2 gynrychiolydd â phrofiad o gymunedau cynaliadwy
 - 1 cynrychiolydd â phrofiad yn y sector ieuenctid
 - cynrychiolydd cyngorau cymuned o orllewin, canol a dwyrain y Parc.
6. Mae aelodau Cyngorau Cymuned yn cael eu penodi am ddeunaw mis, i sicrhau dosbarthiad daearyddol o ran y gynrychiolaeth. Lle mae aelodau'r Panel Cyngori ar

Grantiau'n methu â mynychu tri chyfarfod yn olynol gellir gofyn iddynt adael y panel i wneud lle i aelodau eraill.

2.0 Staff a Busnes

7. Bydd trefniadau gweinyddol ac ariannol y Panel yn cael eu gweithredu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
8. Bydd Swyddogion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn mynychu cyfarfodydd y Panel i gyflwyno ceisiadau am gymorth grant ac i adrodd ar gynnydd, ymrwymadau a gwariant.
9. Bydd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Rheolwr Datblygu Cynaliadwy yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd ac adrodd ar faterion sy'n effeithio ar y Panel.
10. Bydd Swyddogion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cylchredeg yr agenda a'r papurau saith diwrnod cyn bob cyfarfod, yn cofnodi penderfyniadau ac yn anfon cofnodion i'w cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Panel.
11. Gellir cyflwyno busnes hwyr trwy gyflwyno papurau gerbron gyda chymeradwyaeth y Panel.
12. Bydd gan Swyddogion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy bwerau dirprwyedig i gymeradwyo grantiau hyd at £2,000 a byddant yn adrodd ar y rhain yng nghyfarfod nesaf y Panel er mwyn i'r aelodau eu nodi.
13. Bydd pob cymeradwyaeth ar gyfer Grantiau dros £30,000 yn cael eu hatgyfeirio'n ôl at Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gael eu cadarnhau.
14. Bydd aelodau'r Panel sydd â chysylltiad uniongyrchol ag unrhyw gais a gyflwynir yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell tra bo'r cais yn cael ei drafod. Efallai y bydd aelodau'r Panel yn cynrychioli sefydliad sydd â chysylltiad â chais a gyflwynwyd, ond na fydd y sefydliad hwnnw'n cael unrhyw fudd ariannol. Mewn achos o'r fath, nid oes angen i'r cynrychiolwyr ddatgan buddiant.

3.0 Cyfarfodydd

15. Cynhelir pum cyfarfod yn ystod y flwyddyn.
16. Bydd calendr o gyfarfodydd yn cael ei gytuno yn yr hydref bob blwyddyn ar gyfer y deuddeg mis nesaf.
17. Gellir canslo cyfarfodydd oherwydd diffyg busnes trwy roi 7 diwrnod o rybudd.
18. Bydd o leiaf ddau gyfarfod bob blwyddyn yn cynnwys cyflwyniadau gan brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa neu ymweliadau â phrosiectau o'r fath.
19. Y Cadeirydd fydd yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Panel – os nad yw'n gallu bod yn bresennol, bydd y Cadeirydd yn penodi aelod arall i lywyddu. Os nad oes penodiad wedi'i wneud, bydd y rhai sy'n bresennol yn ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

4.0 Penderfyniadau ac Adrodd

20. Bydd y Panel Cynghori ar Grantiau'n gwneud argymhelliad i Bwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy'r Awdurdod yn dilyn trafodaeth lawn am geisiadau.

21. Bydd pleidlais ar argymhellion y Panel Cyngori ar Grantiau yn cael ei chynnal gan Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sy'n cynnwys 6 Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac a all benderfynu cymeradwyo'r argymhelliad, gohirio'r penderfyniad yn ei gylich neu ei wrthod. Ar sail y penderfyniad gan Bwyllgor yr Aelodau bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ynghylch y penderfyniad gan y Swyddog Datblygu Cynaliadwy cyn gynted â phosibl, ond fan bellach bedwar diwrnod ar ddeg ar ôl y dyddiad y gwnaed y penderfyniad.
22. Mewn achosion brys, gellir cyflwyno argymhelliad naill ai i'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i amserlennu ar gyfer yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu, os oes angen gwneud penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i amserlennu ar gyfer yr APC. Dylai unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr APC gael ei wneud yn hysbys yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

5.0 Y Weithdrefn Apêl

23. Os gwrthodir cais, gall yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad.

Gall yr apêl fod yn seiliedig ar:

- i. hawliad ynghylch gweithdrefn anghywir neu
- ii. hawliad ynghylch penderfyniad anghywir

Mae'n rhaid i unrhyw apêl gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig o fewn saith diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr ymgeisydd ei hysbysu ynghylch y penderfyniad ac mae'n rhaid ei hanfon at Swyddog Monitro'r Awdurdod. Mae gan yr Awdurdod 28 diwrnod gwaith i benderfynu ynghylch yr apêl.

Bydd apêl ar sail gweithdrefn anghywir yn cael ei hadolygu gan y Swyddog Monitro. Os yw'r Swyddog Monitro'n ystyried y bu diffyg sylweddol yn y weithdrefn, bydd gan yr ymgeisydd hawl i ofyn i Banel Apêl ailystyried y cais.

Bydd apêl ar sail penderfyniad anghywir yn cael ei chlywed gan Banel Apêl.

Bydd y Panel Apêl yn cynnwys pum Aelod:

- tri Aelod o'r APC, a
- dau Aelod Ymgynghorol (neu Aelodau Ymgynghorol sy'n dirprwyo a benodwyd yn briodol)

nad oedd yr un ohonynt yn rhan o ystyried y cais gwreiddiol.

Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud trwy bleidlais ymhlith Aelodau'r Awdurdod, a'r rheiny'n cael eu cynorthwyo a'u cyngori gan Aelodau Ymgynghorol y Panel Apêl.

Pwerau Dirprwyedig

Argymhell wrth Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy bod grantiau'n cael eu dyfarnu o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i unigolion a sefydliadau.

RHAN I DIRPRWYO I'R SWYDDOG DATBLYGU CYNALIADWY

I. Dyfarnu grantiau o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd at uchafswm o £2,000.

Y GWEITHGOR TAI FFORDDIADWY

Cyfansoddiad

Chwe Aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn:

- Dau aelod a benodir gan Gyngor Sir Powys;
- Un aelod a benodir gan Gyngor Sir Fynwy;
- Un aelod a benodir gan Gyngor Sir Caerfyrddin;
- Dau aelod a benodir gan Lywodraeth

Bydd y Gweithgor yn ethol ei gadeirydd ei hun yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn.

Amodau Gorchwyl

1. Ystyried y modd y gweithredir Polisi presennol y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â Thai Fforddiadwy, materion cyflawni a chyfeiriad Polisi yn y dyfodol
2. Cynnal cyfarfodydd chwarterol

Pwerau Dirprwyedig

Byddai'r Gweithgor yn gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Y GWEITHGOR LLYWODRAETHU A DATBLYGIAD AELODAU

Cyfansoddiad

Bydd y Gweithgor yn cynnwys chwe Aelod – pedwar a benodwyd gan yr Awdurdodau Unedol cyfansoddol a dau gan Lywodraeth Cymru, a'r rheiny'n cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwr yr Awdurdod. O bryd i'w gilydd, a heb osod cynsail, gellir gwahodd aelodau eraill i gyfarfod mewn perthynas â phwnc neu faes arbenigedd penodol.

Bydd y Gweithgor yn cynnwys y swyddogion canlynol hefyd:

- Prif Weithredwr
- Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
- Rheolwr TG a Systemau (Swyddog Diogelu Data)
- Swyddogion eraill yn ôl y gofyn (e.e. Ymgynghorydd Cyfreithiol, Rheolwr Cyllid, Swyddog AI51, Rheolwr Ymgysylltu Cyhoeddus)

Amodau Gorchwyl

Adolygu a gweithredu arfer gorau ym maes llywodraethu a datblygiad aelodau i wella'r prosesau penderfynu, perfformiad pwyllgorau a threfniadau cynllunio busnes gan roi sylw dyledus i dryloywder, atebolrwydd a hygyrchedd.

Yng nghyfarfod cyntaf y gweithgor ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol bob blwyddyn yr eitem gyntaf o fusnes fydd penodi Cadeirydd y gweithgor.

Llywodraethu

1. Tracio arfer gorau ym maes llywodraethu ac argymhell wrth yr Awdurdod ei fod yn ei roi ar waith fel y bo'n briodol;
2. Cynnal adolygiadau neu ystyried newidiadau arfaethedig i ddogfennau rheoleiddiol yr Awdurdod;
3. Adolygu'r Datganiad Llywodraeth Blynnyddol a gaiff ei baratoi bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn arfarnol;
4. Adolygu tryloywder ac atebolrwydd pwyllgorau gan roi sylw arbennig i randdeiliaid allanol, gan gynnwys y defnydd o weddarlledu a'r cyfryngau cymdeithasol;
5. Ystyried adroddiadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a chyflwyno argymhellion i'r Awdurdod;
6. Ystyried cyfleoedd ariannu mewn perthynas â gwelliannau technolegol a gwelliannau eraill i drefniadau llywodraethu;
7. Ystyried Adolygiadau o Effeithiolrwydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau a monitro'r broses o weithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r rhain;

8. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu archwilwyr mewnol yr Awdurdod mewn unrhyw adolygiadau llywodraethu o'r Awdurdod;

Datblygiad Aelodau

9. Goruchwylio'r broses o gyflawni Rhaglen Sefydlu a Datblygiad Parhaus yr Aelodau yn unol â'r Strategaeth Datblygu Aelodau;
10. Cefnogi ethos yr Awdurdod o ran sefydlu a datblygu er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu da a hyrwyddo hyn i'r holl Aelodau;
11. Adolygu'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi bob blwyddyn ac argymhell Rhaglen Datblygu Aelodau wrth yr Awdurdod;
12. Adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau, gan gynnwys y Cyfweiliadau Datblygiad Personol Aelodau a'r cynllun mentora, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod fel y bo angen;
13. Monitro lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd pwyllgorau ac mewn digwyddiadau hyfforddi a gwneud argymhellion i'r Awdurdod;
14. Ystyried cyfleoedd i'r Awdurdod ymgeisio am Wobrau mewn perthynas â llywodraethu, Datblygiad Aelodau neu Graffu a rhoi cymorth i goladu tystiolaeth ar gyfer asesu;
15. Unrhyw dasg arall mewn perthynas â llywodraethu Corfforaethol neu ddatblygiad Aelodau a all gael ei dirprwyo gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

Craffu

16. Adolygu cynnydd ar adolygiadau craffu a nodi unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen
17. Adolygu'r broses graffu yn flynyddol i sicrhau ei bod yn addas i'r pwrpas ac yn gynaliadwy o ran gallu ariannol a staffio
18. Gwerthuswch yr adolygiadau craffu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol er mwyn sicrhau eu bod:
 - a) Wedi darparu gwelliannau i ddarparu gwasanaethau
 - b) Wedi cynrychioli gwerth am arian i'r Awdurdod
 - c) Wedi cynnwys y cyhoedd yn ddigonol i gynnal gwrthrychedd
 - d) Bod yr argymhellion yn gyraeddadwy o ran adnoddau ariannol a dynol yr Awdurdod

Pwerau Dirprwyedig

Gwneud argymhellion i Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â gwelliannau i lywodraethu, datblygu aelodau a chraffu fel y'u nodir yn y cylch gorchwyl uchod.

PANL DEWIS Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Cyfansoddiad

Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy, yr Aelod sy'n Hyrwyddwr dros Fioamrywiaeth a Thirwedd, a'r Aelod sy'n Hyrwyddwr dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. I'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylai cyfansoddiad y panel fodloni gofynion Paragraff 13.3 Atodlen 7 Deddf yr Amgylchedd 1995 o ran cydbwysedd rhwng aelodau a benodir gan awdurdodau lleol ac aelodau a benodir gan Gynulliad Cymru.

Os bydd unrhyw newid yn y dyfodol i rolau Aelodau sy'n Hyrwyddwyr, y ddwy rôl sy'n cyfateb agosaf i'r meysydd pwnc mynediad a hamdden ac amaethyddiaeth a rheoli tir fydd yn cael eu cynrychioli ar y panel.

Bydd y Cyfarwyddwr perthnasol yn goruchwyllo'r broses recriwtio ac yn rhoi cyngor i'r panel yn ôl yr angen ynghylch ceisiadau allanol am aelodaeth.

Cylch Gorchwyl/Pwerau wedi'u Dirprwyo

Penodi unigolion i Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog am dymor penodol o dair blynedd, neu fel y nodir yn y rheoliadau, fel a ganlyn:

- 1) Cadarnhau disgrifiad o rôl aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Fforwm Mynediad Lleol;
- 2) Cymeradwyo trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu mewn modd sy'n debygol o'i dwyn i sylw unigolion sy'n gymwys i ymgeisio amdani;
- 3) Cymeradwyo trefniadau i wybodaeth berthnasol gael ei hanfon at unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais amdani;
- 4) Ystyried rhestr o ymgeiswyr addas;
- 5) Gwneud penderfyniad ynghylch dewis ymgeisydd yn derfynol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy;
- 6) Os nad oes neb cymwys wedi ymgeisio, cymeradwyo trefniadau pellach i hysbysebu.

FFORWM POLISI

Cyfansoddiad

Pob Aelod o'r Awdurdod, yn eistedd fel y Fforwm Polisi.

Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i'w hethol gan yr Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Gall y Fforwm o bryd i'w gilydd sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â materion penodol.

Amodau Gorchwyl

- 1) Rhoi cyfle i drafod effaith polisiau amgylcheddol a diwylliannol, economaidd a chymdeithasol a newidiadau deddfwriaethol ar fusnes yr Awdurdod yn y dyfodol a gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Uwch-grŵp Arwain i wneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod;
- 2) Adolygu, adnewyddu ac adolygu polisiau, gan ystyried tystiolaeth a chanlyniadau ar lawr gwlad a mewnbwn gan y pedwar gweithgor ardal gwaith allweddol;
- 3) Darparu arweiniad ac adborth i swyddogion ar gyfer creu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol, Adroddiad y Wladwriaeth a dogfennau strategaeth allweddol eraill i'w hargymhell i'r Awdurdod;
- 4) Rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr gyfarfod yn gyfrinachol gyda'r aelodau i fynd i'r afael â materion cyllidebol yn y dyfodol;
- 5) Cynnwys rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a chyrrff allanol eraill fel sy'n briodol;
- 6) Adolygu cynnydd ar bartneriaethau allweddol a nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau yn y dyfodol i hyrwyddo amcanion yr Awdurdod;
- 7) Rhoi cyfle i drafod amcanion tymor canolig a hirdymor yr Awdurdod gyda mewnbwn gan y pedwar gweithgor ardal gwaith allweddol yn ôl yr angen;
- 8) Rhoi cyfle i gychwyn neu gefnogi gwaith sydd ar y gweill ar effaith tirwedd a chymunedau Brexit ar y Parc Cenedlaethol, ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid fel bo'r angen.
- 9) Sicrhau integreiddio a chydlynid priodol o flaenoriaethau ar gyfer eu cyflwyno ar draws y pedwar maes gwaith allweddol wrth geisio cyflawni ein dibenion a'n dyletswydd
- 10) Gwneud yr holl uchod yn sgil yr adnoddau sydd ar gael a chyfyngiadau ariannol;

Pwerau Dirprwyedig

Bydd gan y Fforwm rôl ymgynghorol a bydd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr a'r Uwch-grŵp Arwain. Ni fydd ganddo bwerau i gwneud penderfyniadau.